Newyddion gan Ddiogelwch y Ffyrdd Cymru

" Beth sy'n digwydd ym myd diogelwch ar y ffyrdd? " Awst 2008 — Rhifyn 9

Yn y Rhifyn Hwn:

• Tystysgrifau Kerbcraft • Rhoi Prawf ar Wybodaeth am Ddiogelwch ar y Ffyrdd • Athro wedi Ymddeol yn Mentro i fyd Diogelwch ar y Ffyrdd • Ymgynghori â'r Cyhoedd ynghylch Dysgu Gyrru • Dadorchuddio efelychydd beic modur • 'TGAU mewn Gyrru' ar y gweill • Diogelwch ar y Ffyrdd yn ein Dinasoedd • Adnodd am ddim ynghylch Saesneg fel ail iaith • Lansio DVD Cymorth Hyfforddi Beicio Modur gan y DSA •Marwolaethau Pobl Hŷn ar y Ffyrdd •Hyfforddiant Teithio: Cyfnodau Allweddol 3 a 4 • Gyrwyr sy'n Methu â Diogelu Plant sy'n Teithio

Tystysgrifau Kerbcraft

Dysgwyr Kerbcraft yn y seremoni gyflwyno. Hefyd yn y llun mae Karl Napieralla, Cyfarwyddwr Addysg (chwith), y Cynghorydd Arwyn Woolcock (de) a'r Rheolwraig Diogelwch ar y Ffyrdd, Joy Smith (de)

Mae gwirfoddolwyr ymroddedig yng Nghastell-nedd Port Talbot sy'n helpu pobl ifanc i ddysgu am beryglon y ffyrdd wedi bod wrthi'n dysgu drostynt eu hunain. Bellach, maent wedi cael tystysgrifau ar ôl cwblhau'n llwyddiannus y cynllun hyfforddi unigryw a ddatblygwyd yn y fwrdeistref sirol.

Mae'r 15 o wirfoddolwyr wedi bod yn astudio'r hyn sy'n cyfateb i NVQ mewn Sgiliau Plant sy'n Gerddwyr. Datblygwyd y cymhwyster gan Gydlynydd Kerbcraft ar y cyd â Rhwydwaith y Coleg Agored a Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes Castell-nedd a Phort Talbot. Dyma'r unig un o'i fath yng Nghymru.

Mae cynllun Kerbcraft ar waith yng Nghastell-nedd Port Talbot ers chwe blynedd. Ar hyn o bryd, mae 29 ysgol yn cymryd rhan ynddo a'r nod yw rhoi hyfforddiant ar y ffordd i blant 5-7 oed.
Oherwydd eu llwyddiant gyda'r plant, cafodd y gwirfoddolwyr gyfle i ennill y cymhwyster ac maen nhw'n awr wedi cael eu tystysgrifau.

Meddai'r Rheolwraig Diogelwch ar y Ffyrdd, Joy Smith: "Rydyn ni wrth ein bodd â champ ein gwirfoddolwyr. "Byddan nhw'n rhoi o'u hamser rhydd i hyfforddi'n pobl ifanc fregus, ac yn hwyliog a hyderus eu hagwedd beth bynnag fydd y tywydd. Mae'r cymwysterau maen nhw wedi'u sicrhau, a'r rheiny'n rhai a gydnabyddir ledled y wlad, yn cyfoethogi rhagor ar ein cynllun Kerbcraft ac yn wobr fach iddyn nhw am eu hymroddiad a'u gwaith caled."

Rhoi Prawf ar Wybodaeth am Ddiogelwch ar y Ffyrdd

Erbyn hyn, Ysgol Gynradd Lansdowne, pencampwyr y Cwis Diogelwch ar y Ffyrdd i Ysgolion Caerdydd, yw pencampwyr Cwis Ysgolion Cynradd De Cymru yn yr un maes.

Cynhaliwyd y rownd derfynol ym Mhencadlys Heddlu'r De ym Mhen-y-bont ar Ogwr ddydd Gwener 20fed Mehefin ac fe gurodd y tîm bum ysgol a oedd yn cynrychioli awdurdodau lleol ledled y de. Cydlynir y gystadleuaeth flynyddol hon gan Heddlu'r De ac fe'i noddir gan Lion Laboratories.

Athro wedi Ymddeol yn Mentro i fyd Diogelwch ar y Ffyrdd

Diogelwch ar y Ffyrdd – Adnodd Newydd mewn Cerddoriaeth i Flwyddyn 2. Efallai fod Cerddoriaeth a Diogelwch ar y Ffyrdd yn bartneriaid rhyfedd, ond darganfu athrawon yn Sir Fynwy yn ddiweddar fod y cynllun newydd ac arloesol hwn wedi taro tant, ac wedi taro deuddeg!

What Mae'r cynllun gwaith a luniwyd ar gyfer y disgyblion yn Ysgol Gynradd Thornwell yng Nghas-gwent wedi'i ehangu a'i ddatblygu'n adnodd gwerthfawr i athrawon.

Yn ddiweddar, bu athrawon o ysgolion cynradd yn ne Sir Fynwy ar gwrs hyfforddi mewn-swydd i ddysgu plethu negeseuon sylfaenol am ddiogelwch ar y ffyrdd i dymor o wersi cerddoriaeth. Dyfeisiwyd y cynllun gan Bob Young, a arferai fod yn athro yn Ysgol Gynradd Thornwell ond sydd bellach wedi "ymddeol".

Bellach, caiff y cynllun gwaith y gwnaeth ei lunio a'i gyflwyno ei ddefnyddio mewn ysgolion yn Sir Fynwy. Yr oedd sylwadau cadarnhaol y rhai a ddilynodd y cwrs yn cyfiawnhau'r holl waith o baratoi'r cynllun.

"Y draethu'n dda a'r hyfforddi'n fywiog. Roedd yr holl syniadau, gwybodaeth a gweithgareddau'n ddefnyddiol. Da gweld sut y caiff gweithgareddau eu defnyddio gyda dosbarth Blwyddyn 2. Ymatebion a chyfranogi gwych." Miriam Buchan, Pennaeth Cynorthwyol ac Athrawes Blwyddyn 5 yn Ysgol Gynradd Drenewydd Gelli-farch.

"Roedd y cynnwys cerddorol yn cyd-fynd yn hwylus â'r agwedd ar ddiogelwch ar y ffyrdd. Doedd dim teimlad o ieuo'r anghymarus." Marc Williams, Cydlynydd Cerddoriaeth Ysgol Gynradd Thornwell.

Ymgynghori â'r Cyhoedd ynghylch Dysgu Gyrru

Mae'r Llywodraeth (y DSA) wedi cyhoeddi Papur Ymgynghorol, o'r enw Learning to Drive, sy'n cyflwyno cynigion ar gyfer adolygiad mawr o'r ffordd y dysgwn ni yrru, yn esbonio pam y mae'r newid yn bwysig ac yn disgrifio ffyrdd posibl o gynnwys y cyhoedd yn y broses.

Angen newid
Gan fod nifer y bobl sydd wedi'u lladd neu wedi'u hanafu ar ffyrdd Prydain wedi gostwng un rhan o dair dros y deg mlynedd diwethaf, mae teithio ar ffyrdd Prydain yn fwy diogel na gwneud hynny bron yn unman arall yn y byd. Ond mae ffordd bell i fynd o hyd. Dyma amcangyfrif yr arbenigwyr:
Lladdwyd dros dri chant o yrwyr a oedd newydd lwyddo yn eu prawf, a'u teithwyr, mewn damweiniau yn 2006.
Gyrwyr sydd newydd lwyddo yn eu prawf, a'u teithwyr, yw un o bob pump sy'n marw mewn ceir.

Y newidiadau sy'n cael eu cynnig
Ar sail ein hymchwil, mae'r Papur Ymgynghorol Learning to Drive yn amlinellu'r hyn yr hoffai pobl ei weld mewn rhaglen newydd o hyfforddi, profi a gyrru. Hoffem ddarparu:
Gwell prawf gyrru
Gwell proses ddysgu
Gwell gwybodaeth am hyfforddwyr a gwell hyfforddiant iddynt
Dewisiadau pellach o ran dysgu ac ennill cymwysterau

Beth yw'ch barn chi?
Er mwyn i'r cyhoedd gael popeth y bydd arnynt ei angen i ymuno â'r ymgynghoriad, rydym wedi cyhoeddi amrywiaeth mawr o wybodaeth ac wedi creu amryw o ffyrdd i chi gyflwyno'ch sylwadau. Cewch ddweud eich dweud o hyn tan 8 Medi 2008 (pan ddaw'r ymgynghori â'r cyhoedd i ben).
Gwefan arbennig yr ymgynghoriad Learning to Drive: http://dsa.gov.uk/learningtodrive

Papur Ymgynghorol Learning to Drive: www.dsa.gov.uk/consultation

Dadorchuddio efelychydd beic modur

Mae ymchwilwyr ym Mhrydain wedi dadorchuddio efelychydd beic modur. Dywed ei grewyr y caiff y peiriant ei ddefnyddio i fonitro ymddygiad beicwyr. Bydd hynny'n arwain at ddatblygiadau ym myd diogelwch ar y ffyrdd ac ym myd dylunio beiciau.

Dr Alex Stedmon o Brifysgol Nottingham oedd arweinydd y prosiect. Dywed mai'r peiriant hwn yw'r cyntaf o'i fath a'i fod yn cyfuno elfennau na welwyd mohonynt mewn efelychwyr o'r blaen.

Meddai Dr Stedmon: "Bydd yn gyfleuster ymchwil gwych. Dyma'r efelychydd symudol maint-llawn cyntaf sy'n gysylltiedig â sgrin taflunydd a meddalwedd pwrpasol. Does dim rhaid i ni boeni am ddiogelwch y beicwyr ar yr efelychydd, nac am y tywydd (am fod y cyfan dan do)."

Cysylltir y beic – sydd wedi'i adeiladu ar ffrâm Triumph Daytona go iawn – â meddalwedd a arferai gael ei defnyddio mewn efelychwyr ceir. Bu tîm o bedwar myfyriwr yn gweithio ar y prosiect i gyfuno'r beic â'r meddalwedd. Mae pedwar teclyn niwmatig yn gwneud i'r beic bwyso i'r dde ac i'r chwith. O flaen y beic mae sgrin fawr yn dangos amgylchedd ffordd sy'n cynnwys traffig.

Gweld y fideo

'TGAU mewn Gyrru' ar y gweill

Mae corff o'r enw a2om wrthi'n datblygu BTEC mewn Gwyddor Gyrru (TGAU) sef 'cymhwyster academaidd a galwedigaethol cyntaf y byd i'r rhai sy'n dysgu gyrru'.

Mae'r cwrs yn cynnig ffordd i hyfforddwyr a myfyrwyr roi sylw i'r sgiliau corfforol sydd ynghlwm wrth ddysgu gyrru a llwyddo yn y prawf gyrru, a pharatoi'r dysgwr i yrru'n fwy diogel ar ôl hynny.

Cyflwynir y cymhwyster newydd gan ADIs, ac mae a2om yn darparu rhaglen o ddiwrnodau hyfforddi ar ei gyfer.

Mae'r cwrs hefyd yn cynnwys hyfforddiant wedi'r prawf, sef datblygu profiadau'r myfyrwyr ar y ffyrdd, ac yn rhoi sylw i gyfrifoldebau bod â thrwydded, a thechnegau rheoli risg.

Meddai Adrian Walsh, cyfarwyddwr RoadSafe: "Gan fod gallu gyrru yn llwybr pwysig at gael swydd, dylai dysgu gyrru fod yn rhan o'n cyfundrefn addysg. Dyma ddatblygiad arloesol fydd yn rhoi cyfle – nad oedd i'w gael o'r blaen – i bobl ifanc."

I gael gwybod rhagor, cysylltwch â Dave Parkin ar 07894199374, neu ewch i: www.a2om.com

Diogelwch ar y Ffyrdd yn ein Dinasoedd

Gan mai nod prosiect uchelgeisiol Ewrop yw arbed 25,000 o fywydau ar ein ffyrdd, diben Diwrnodau Ewropeaidd Diogelwch ar y Ffyrdd yw cynyddu ymwybyddiaeth, rhoi amlygrwydd i'r arferion lleol a'r polisïau Ewropeaidd gorau, a chynnig cyfle i bawb perthnasol weithio i gynyddu rhagor ar ddiogelwch ar y ffyrdd mewn cymuned wirioneddol Ewropeaidd a byd-eang.

Bydd yr ail ddiwrnod diogelwch ar y ffyrdd, sydd i'w gynnal yn 2008, yn rhoi sylw i bwnc "Diogelwch ar Ffyrdd ein Dinasoedd". Mabwysiadwyd Papur Gwyrdd y Comisiwn, "Towards a new culture for urban mobility", ar 25 Medi 2007 ac ynddo dywedir y gallai un o'r diwrnodau Ewropeaidd nesaf ar ddiogelwch y ffyrdd ganolbwyntio ar ardaloedd trefol. Yn wir, bydd dwy o bob tair damwain ac un o bob tair marwolaeth ar y ffyrdd yn digwydd mewn ardaloedd trefol ac yn effeithio ar ddefnyddwyr mwyaf bregus y ffyrdd.

Cynhelir yr ail ddiwrnod Ewropeaidd ar ddiogelwch ar y ffyrdd ar 13 Hydref 2008. Ym Mharis y cynhelir y prif ddigwyddiad. Yng Nghymru, y gobaith yw cynnal digwyddiadau yng Nghaerdydd, Casnewydd ac Abertawe.

Darllen Rhagor

Saesneg fel ail iaith? Adnodd newydd am ddim ynghylch diogelwch ar y ffyrdd

Gyda chymorth Adran Diogelwch ar y Ffyrdd yng Nghyngor Dinas Birmingham, a chefnogaeth yr Adran Drafnidiaeth, mae RoSPA wedi datblygu adnodd addysgu newydd ym maes ESOL (Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill) yng Nghyfnod Allweddol 2. Mae'r adnodd yn cynnwys Canllaw yr Athro **a chwe** Llyfr Gwaith i Blant**, ac wedi'i gynllunio i ddatblygu sgiliau siarad ac ysgrifennu dysgwyr Saesneg fel ail iaith gan ddefnyddio Diogelwch ar y Ffyrdd yn thema.**

Mae'r ymchwil yn dangos bod plant o gefndir difreintiedig yn fwy tebyg o fod mewn damweiniau ar y ffyrdd - ac yn fwy felly os nad oes gan y plant fawr o Saesneg. Gan mai nod yr adnodd yw helpu i gywiro'r broblem, mae'n cynnwys amryw o eiriau, ymadroddion a negeseuon allweddol diogelwch y ffyrdd mewn **Bengali**, **Punjabi**, **Wrdw** a **Phwyleg** yn ogystal â Saesneg (ond mae modd cynnwys siaradwyr ieithoedd eraill hefyd).

Mae'r llyfrau gwaith ar gael oddi wrth RoSPA fel taflen am ddim tra bydd y stociau ohonyn nhw'n para (MS348 ac MS358), neu i'w llwytho i lawr fel pdf.

Ffoniwch **0121 248 2126** i gael gwybod rhagor.

Lansio DVD Cymorth Hyfforddi Beicio Modur gan y DSA

Mae'r Asiantaeth Safonau Gyrru (y DSA) newydd lansio DVD hyfforddi swyddogol i feicwyr sydd wedi llwyddo yn eu prawf ac i hyfforddwyr beicwyr modur.



Mae 'Better Biking – the Official DSA Training Aid DVD' yn rhoi cyngor arbenigol ynghylch gwella sgiliau beicwyr ac yn helpu beicwyr sydd wedi llwyddo yn eu prawf i gyrraedd safon y DSA. Gall beicwyr modur gynyddu eu harbenigedd beicio drwy wylio hyfforddwyr proffesiynol yn hyfforddi beicwyr sydd wedi llwyddo yn eu prawf a thrwy wylio asesu ar gyfer y Cynllun Uwch-Feicio (yr ERS). Gall hyfforddwyr ddefnyddio'r clipiau a'r dadansoddiad i esbonio'r sgiliau allweddol a'u dangos yn ddiogel ac yn fanwl.

Ar y DVD gwelir y Rhingyll Rick Weaver, prif hyfforddwr uwch-feicio Heddlu Swydd Gaer, yn dangos taith ddelfrydol ym mhob categori o sgìl i ddangos y safon o feicio y dylai beiciwr anelu ati.

Yn ogystal â dadansoddi beicwyr, mae'r DVD yn cynnig cyngor awdurdodol ynghylch beiciau, dillad a gwirio beiciau a diogelwch gyda Louise Brady, cyflwynydd Bikes Aloud a'r Isle of Man TT. Mae Brady wrth ei bodd â'r DVD am ei bod yn darparu'n llwyddiannus ar gyfer hyfforddwyr a beicwyr modur sydd wedi llwyddo yn eu prawf: 'Y DVD yw'r cyfrwng perffaith i wella'r rhaglenni hyfforddi a gaiff beicwyr ar ôl llwyddo yn eu prawf, ac mae'n baratoad delfrydol ar gyfer asesiad ERS a allai helpu beicwyr i ostwng cost eu hyswiriant.'

Better Biking: the Official DSA Training Aid, ISBN 97801129559 Ewch i www.tsoshop.co.uk/bike

Gostwng Nifer Marwolaethau Pobl Hŷn ar y Ffyrdd

Cyngor Diogelwch Cludiant Ewrop i 8,260, o leiaf, o bobl 65 oed a throsodd gael eu lladd yn y 27 o wledydd yn yr UE yn 2006. Er mai person hŷn yw un o bob chwech o boblogaeth Ewrop, mae un o bob pum person sy'n cael eu lladd mewn traffig ar y ffyrdd yn 65 oed a throsodd. Ac wrth i'r boblogaeth heneiddio, bydd pobl hŷn yn gyfran gynyddol o'r boblogaeth a gallai hynny amharu ar ddatblygiad diogelwch ar y ffyrdd yn y dyfodol. Os bydd cyfraddau risg pobl hŷn ac eraill yn gostwng yr un mor gyflym, mae'n debyg mai person hŷn fydd un o bob tri sy'n marw ar y ffyrdd erbyn 2050. Mae galluogi dinasyddion hŷn i deithio a cherdded yn ddiogel yn haeddu cael sylw arbennig, gan gynnwys ailystyried polisïau a strategaethau. Dros y degawd diwethaf, **Portiwgal**, **Israel** a **Ffrainc** sydd wedi sicrhau'r gostyngiad mwyaf yn nifer marwolaethau pobl hŷn ar y ffyrdd o flwyddyn i flwyddyn.

Darllen yr adroddiad llawn

Hyfforddiant Teithio: Cyfnodau Allweddol 3 a 4



Po hynaf yw plant, mwyaf tebyg ydyn nhw o farw neu o gael eu hanafu ar y ffyrdd, a thraffig yw un o'r elfennau sy'n lladd fwyaf o blant 12-16 oed ym Mhrydain.

Dyna'r oedran pryd y bydd plant yn dechrau mentro y tu hwnt i'r cartref a'r ysgol a defnyddio cludiant cyhoeddus ar eu pennau eu hunain. Bydd gwersi hyfforddiant teithio o les i'r myfyrwyr hyn, yn enwedig gan fod teithio ar fysiau a threnau yn gallu bod yn sialens, hyd yn oed i deithwyr profiadol!

Mae'r pecyn hyfforddi hwn yn berthnasol i weithwyr proffesiynol ac i unigolion neu grwpiau eraill sy'n ymddiddori yn lles pobl ifanc – gan gynnwys athrawon, cydlynwyr ABCh, cydlynwyr profiad gwaith, swyddogion diogelwch ar y ffyrdd, cydlynwyr cynlluniau teithio ysgolion, a swyddogion yr heddlu.

Ynddo, mae taflenni gwaith pwrpasol sy'n rhoi sylw i amrywiaeth o bynciau a materion sy'n gysylltiedig â theithio'n annibynnol. Ceir nodiadau addysgu byr hefyd ar gyfer pob taflen waith. Diben y pecyn yw helpu i gyrraedd targedau'r Llywodraeth i gwtogi cryn dipyn, erbyn 2010, ar nifer y bobl sy'n cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol mewn damweiniau ar y ffyrdd.

Cliciwch yma i gael y pdf ar-lein am ddim.

Gyrwyr sy'n Methu â Diogelu Plant sy'n Teithio

TISPOL
European Traffic Police Network

Mae ymgyrch ledled Ewrop wedi dangos nad yw nifer brawychus o fodurwyr yn gwisgo'u gwregys diogelwch. Trefnwyd Operation Seatbelt gan TISPOL a gwelwyd yr heddlu mewn 22 o wledydd yn Ewrop yn gwirio gyrwyr rhwng Chwefror 18fed a 24ain 2008.

Cafwyd nad oedd cyfanswm o 142,209 o ddefnyddwyr ceir yn gwisgo'u gwregys diogelwch er bod hynny'n orfodol yn Ewrop ers 1993.

Meddai Llywydd TISPOL, Adam Briggs: "Mae'r canlyniadau hyn yn peri pryder mawr am ein bod ni'n gwybod mai un o'r bygythiadau mwyaf i fywyd ar y ffyrdd yw methiant y gyrrwr neu'r teithwyr i wisgo'u gwregys diogelwch".
Gan mai teitl ymgyrch TISPOL oedd "Save Your Children. Adults have a choice, children do not", yr oedd yr heddlu'n poeni o weld bod dros 4,000 o blant ymhlith y rhai a oedd heb fod yn gwisgo'u gwregys diogelwch.

"Roedd hi'n bryder mawr gweld bod cynifer o oedolion yn barod i fentro bywydau eu plant", meddai Mr Briggs. "Mae'r ymchwil yn awgrymu bod hyd at 10,000 o bobl yn marw ar ffyrdd Ewrop bob blwyddyn am nad ydyn nhw'n gwisgo gwregys diogelwch – dyna i chi farwolaethau cwbl ddiangen a digon hawdd eu hosgoi."

Cliciwch yma i weld tabl yr holl ganlyniadau ynghyd â dadansoddiad ohonynt fesul gwlad.

Cysylltwch â'r Golygydd

Hawlfraint © 2008 gan RoSPA Cymru – Cedwir Pob Hawl.

Golygydd: Steve Baker, RoSPA
sbaker@rospa.com

02920 250 600

RoSPA
The Royal Society for the Prevention of Accidents